CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2024

PWNC

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo diweddariad:

- **Polisi Buddsoddi Cyfrifol**
- **Polisi Hinsawdd**
- **Polisi Stiwardiaeth**

Nodi'r diweddariad cynnydd Blynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd

RHESYMAU:

Cymeradwywyd fersiynau cyfredol y Polisïau Buddsoddi Cyfrifol, Hinsawdd a Stiwardiaeth (Polisi Pleidleisio yn wreiddiol) gan y CBLl ym mis Medi 2019, Gorffennaf 2020 a Rhagfyr 2020 yn y drefn honno. Adolygir yr holl bolisïau'n flynyddol ac mae'r diwygiadau a argymhellwyd yn ystod yr adolygiad eleni angen eu cymeradwyo gan y CBLl.

Hefyd, mae Hymans Robertson wedi cynnal eu hadolygiad blynyddol o'r gwaith a wnaed yn unol â'r ymrwymiadau a nodir yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a'r Polisi Hinsawdd. Maent wedi darparu asesiad o'r cynnydd y mae PPC wedi'i wneud yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024 a'r meysydd y bwriedir canolbwyntio arnynt i'r dyfodol.

Awdur yr Adroddiad:	**Swydd:**	**Rhif Ffôn: 01267 224160**
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** □ □ **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2024

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo sawl polisi/cynllun gaiff eu hadolygu yn flynyddol. Y chwarter hwn, mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r:

- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Polisi Hinsawdd
- Polisi Stiwardiaeth

Cafodd y Polisi Buddsoddi Cyfrifol ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ym mis Medi 2019 a chafodd ei adolygu a'i ddiweddaru ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2021. Yn dilyn adolygiad eleni, bu'r prif newidiadau yn y pedwar prif faes: Newid Hinsawdd (adran 4), Natur (adran 5, newydd), Stiwardiaeth (adran 9) a Benthyca Gwarannau (adran 11).

Mae'r Polisi Hinsawdd yn nodi dull PPC o ran ymdrin â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd a monitro'r risgiau hynny. Mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi hwn ac wedi ei addasu i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bod ystyried cyfleoedd hinsawdd (yn cynnwys datrysiadau hinsawdd) hefyd yn berthnasol, nid dim ond ystyriaeth o risg hinsawdd. Gan gydnabod pwysigrwydd trawsnewidiad cyfiawn, ychwanegwyd cred newydd (pwynt 10.2) ac ychwanegwyd amcan arall ynghylch mabwysiadu fframwaith hinsawdd PPC (pwynt 20). Datblygwyd monitro ac adrodd ymhellach i gynnwys adrodd ar ddisgwyliadau ar newid hinsawdd yn benodol (pwynt 32), ac mae hefyd yn cynnwys rhwymedigaeth i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar yr hinsawdd (pwynt 34). Mae'r adran Stiwardiaeth (pwynt 35) hefyd wedi'i diweddaru i gynnwys datblygu rhestr sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd i gynyddu'r craffu.

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CBLl i PPC fabwysiadu Polisi Pleidleisio drwy Ddirprwy Robeco. Adolygir y polisi hwn yn flynyddol; cynigir bod PPC yn parhau i fabwysiadu Polisi Pleidleisio drwy Ddirprwy Robeco. Mae Polisi Stiwardiaeth PPC-penodol hefyd wedi'i ddatblygu; yn ystod adolygiad eleni, ychwanegwyd adran ymgysylltu newydd (adran 3) ac mae adran uwchgyfeirio'r polisi hwn (adran 4) wedi'i hehangu, gyda chynnwys set o egwyddorion uwchgyfeirio a fydd yn llywodraethu sut y bydd PPC yn mynd i'r afael ag ymgysylltiadau aflwyddiannus.

Mae'r holl bolisïau hefyd wedi'u diweddaru i adlewyrchu lansiad cerbydau'r farchnad breifat, i alinio geiriad ar draws y tri pholisi ac i ehangu ar ddiffiniadau.

Mae Hymans wedi darparu asesiad o'r cynnydd y mae PPC wedi'i wneud yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024, mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol a'r Risg Hinsawdd, ac mae'n tynnu sylw at rai o'r prif feysydd. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn manylu ar rai meysydd lle nad yw'r gwaith wedi gwneud cynnydd dros y flwyddyn a'r meysydd posib ar gyfer gweithgarwch/gwelliannau yn ystod 2024/25.

Os yw'r polisïau hyn yn cael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu diweddaru ar wefan PPC.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**	Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd **OES**
Polisi Mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, y Polisi Hinsawdd a'r Polisi Stiwardiaeth yn ddogfennau ffurfiol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.					
Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd Mae'r tri pholisi hyn yn amlinellu agwedd PPC tuag at faterion bioamrywiaeth a newid hinsawdd.					

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth **Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:** **MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**